OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2939

## Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011

**Llunio Strategaeth**

**3.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol, pob awdurdod lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, baratoi a chyhoeddi strategaeth.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd i baratoi strategaeth drwy gymryd rhan yn y gwaith o baratoi un strategaeth ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol y mae ei ardal yn cwmpasu ardal yr awdurdod lleol fel a nodir yn yr Atodlen.

(3) At ddibenion adran 6(1) o'r Mesur (cyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru), y Bwrdd Iechyd Lleol yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer y strategaeth y mae'n ei pharatoi gydag awdurdod lleol.

(4) Rhaid i strategaeth a baratowyd gan Fwrdd Iechyd Lleol ac y mae un neu ragor o awdurdodau lleol wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i pharatoi, nodi sut y bydd pob un o'r cyrff hyn yn gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd yr amcanion a nodir yn adran 2(1) (a), (b) ac (c) o'r Mesur.

(5) Caniateir i bob un o Ymddiriedolaethau'r GIG gyflawni ei dyletswydd i baratoi a chyhoeddi strategaeth drwy gymryd rhan yn y broses o baratoi strategaethau'r Byrddau Iechyd Lleol.